



EISTEDDFOD CWM TAWÉ -OWAIN LEWIS



Cynhaliwyd Eisteddfod Cwm Tawe 2026 yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ar yr 28ain o Chwefror 2026.

Dyma rai o'r prif benawdau am Eisteddfod Cwm Tawe 2026

- Daeth dros 1,000 o bobl trwy'r drysau
- Cafwyd 88 o gystadlaethau – gwaith cartref a llwyfan
- Cynhaliwyd 5 rhagbrawf ar gyfer cystadlaethau
- oedran cynradd oherwydd y niferoedd a gofrestrodd
- Cafwyd dros 500 o gystadleuwyr ar draws y cystadlaethau
- Daeth 12 côr neu barti canu; 5 parti llefaru a 5 parti
- dawnys i gystadlu ar y llwyfan
- Daeth 18 ysgol i gystadlu ar draws yr holl gystadlaethau, a 6 o'r rheini'n rhai cyfrwng Saesneg.
- Cafwyd cefnogaeth gan 39 o wirfoddolwyr brwd ar y diwrnod! Diolch!

Cyflwynwyd gwobr Tlws yr Ifanc er cof am Dafydd Rowlands, archdderwydd a phrifardd, i Erin Hill o Ysgol Gyfun Gŵyr am farddoniaeth a rhyddiaith ar y testun 'Cynefin'. Noddwyd y wobwr yn hael iawn gan Margaret Rowlands.

Y beirniad oedd Y Prifardd Robat Powell ac roedd "safon y gwaith yn uchel ac yn brawf bod y gystadleuaeth yn haeddu ei lle yn yr Eisteddfod", meddai. Cyflwynwyd y tlws i 'Lodes' – Erin Hill, am y 'mynegiant cryno ac awgrymog yn y farddoniaeth a'r disgrifio manwl ac ingol yn y stori' a gyflwynwyd ganddi.



ESTYN YN GOFYN I ABERTAWE WNEUD MWY O WAITH AR ADDYSG GYMRAEG -HEINI GRUFFUDD

Mae Estyn newydd gwblhau arolwg o addysg yn Abertawe, ar y 3ydd o Fawrth 2026. Un o'r ystyriaethau oedd sut mae Cyngor Abertawe'n delio â'r Gymraeg. Roedd Estyn yn gwerthfawrogi bod y Cyngor wedi mynd ati i ddarparu adeiladau newydd, er y byddai RhAG yn dadlau bod angen rhagor o ysgolion yn fuan yng ngwahanol gymunedau'r dref.

Roedd Estyn am i'r Sir roi sylw penodol i sut i gynyddu niferoedd mewn addysg Gymraeg, sut i gefnogi trosglwyddo disgyblion o addysg Saesneg i addysg Gymraeg, a sut i gryfhau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Meddai Estyn wrth y Cyngor:

"I hwyluso mwy o welliant, rydym yn credu y byddai'n fuddiol i chi ystyried:

- Sut gallwch chi ddeall yn well y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd i ddechrau yn y sector cyfrwng Cymraeg, aros ynddo neu'i adael, o'r blynyddoedd cynnar trwodd

i addysg gynradd, a pha mor effeithiol allwch chi ddefnyddio hyn i fynd i'r afael â rhwystrau a nodi ffactorau lliniarol i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg?

- Pa mor dda ydych chi'n cefnogi disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg uwchradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg?

- I ba raddau ydych chi'n ymchwilio ac yn defnyddio cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd trwy bartneriaethau â chysiau galwedigaethol a mentrau cyflogaeth yn y dyfodol, yn cynnwys prosiectau fel Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ac Addewid Abertawe?

- Pa mor effeithiol ydych chi'n defnyddio data sydd ar gael, fel dangosfwrdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i nodi a mynd i'r afael yn rhagweithiol ag anghenion dysgu proffesiynol y gweithlu?"

HYRWYDDO MUDIAD MEITHRIN

Wrth siarad o'i swyddfa yn y Senedd yn dilyn Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg ddydd Mawrth, dywedodd AS Dwyrain Abertawe, Mike Hedges..... ' Mae tystiolaeth sylweddol bod y plant cynharaf yn dysgu iaith yr hawsaf yw hi iddyn nhw gaffael y gallu i ddeall siarad yr iaith.

Gwelais hynny er fy mwyn fy hun pan ymwelais â Meini Bach ym Mhen-y-maen ddydd Llun lle maent yn darparu ar gyfer plant oed meithrin o amrywiaeth o gefndiroedd ac a oedd i gyd yn dysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Rwy'n llongyfarch y staff yn Bonymaen am y gwaith y maent yn ei wneud gyda'r plant.

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn eu gallu i hyrwyddo'r Mudiad Meithrin ym mhob cymuned ledled Cymru; Byddwn yn annog pob rhiant i edrych ar yr opsiynau ar gyfer mynd i mewn i'w plant i'r mudiad Meithrin cyn gynted â phosibl.

Y CYMRO

Tanysgrifiwch i'r Cymro

Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy'r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.



Cysylltwch gyda
tanysgrifio@ycymro.cymru
i drefnu

HWYL GŴYL DEWI GYDA CHÔR TY TAWE

Seren y sioe.... Bu'r gynulleidfa wrth eu boddau gyda pherfformiad iwffoniwm Llywelyn Gannon yn ystod noson Hwyl Gŵyl Dewi, dathliad dydd ein nawddsant.

Gyda Chôr Ty Tawe'n cyflwyno rhaglen o eitemau, ymunodd y dorf mewn nifer o'n hoff ganeuon.



DATHLU GŴYL DEWI YNG NGHAPEL HOPE-SILOH -LUNED JONES

Braf oedd gweld y festrioedd yn llawn i ddathlu Gŵyl Dewi eleni!
Diolch i bawb fu'n trefnu ac i Lleisiau Lliw am yr adloniant. Noson hyfryd!



LLENYDDIAETH

Dydd Sadwrn Mai 9fed 2026
NEUADD YSGOL GYNRADD YR HENDY



Llenyddiaeth (ag eithrio plant cynradd)

1. Tlws Llenor yr Ifanc dan 25: Cerdd neu Ryddiaith. Testun Agored Gwobr: Tlws a £30
2. Cerdd gaeth neu rydd hyd at 50 llinell. Testun 'Storm' Gwobr: Cadair a £50 (Gwobr ariannol yn rhoddedig gan Bethan Mair)
3. Telyneg. Testun 'Perthynas' neu 'Perthyn' Gwobr £20
4. Llunio brawddeg ar y gair 'Adnabod' Gwobr: 1af £10
5. Gorffen Limrig: 'Aeth Gwenno un dydd i dorheulo' Gwobr: 1af £10

Erbyn
Ebrill 24ain

Y gwaith i'w ddanfôn at Delyth Mai Nicholas erbyn Ebrill 24ain 2026
neu at meiniirjones20@hotmail.com



OTTER DWRGI

BY | GAN FLOSSY AND BOO



Ffern FOLK FD TN 

DYDD SADWRN | SATURDAY 28.3.26, 11:30
Tŷ Tawe, ABERTAWE | SWANSEA

www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

 Llandudno Llandudno Cymru
Sponsored by
Welsh Government

 Noson Allan
Night Out

 menter
iaith
abertawe

BRYN TAWE YN EISTEDDFOD CWM TAWE- MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafwyd diwrnod i gofio yn Eisteddfod Cwm Tawe. Hyfryd oedd gweld nifer o ddisgyblion yn cystadlu'n unigol- Fanw Watson ac Ava Britton ar yr Unawd Offerynnol agored gyda Llywelyn Gannon yn ennill y wobwr gyntaf yn yr Unawd Offerynnol. Huana Mai yn ennill yr ail wobwr am lefaru Bl.7-9, Hari James yn ennill y llefaru Bl.10-13, Skye Morris yn ennill yr ail wobwr am Unawd Sioe Gerdd Bl.7-9 a Maiwenn Watson yn ennill yr Unawd Alaw Werin Bl.10-13. Llongyfarchiadau i Barti Llefary hŷn Bryn Tawe am ennill y wobwr gyntaf yn y Parti Llefary, ac i Barti Llefary iau Bryn Tawe am ennill yr ail wobwr. Daeth llwyddiant hefyd o ran y gwaith cartref gyda Ava Britton yn ennill y gystadleuaeth Ffotograffiaeth Bl.10-13, Maiwenn Watson yn ail a Dafydd Euros yn drydydd. O ran llenyddiaeth, daeth Kitty Walton yn ail am farddoniaeth Bl.10-13 a Tirion Clarke yn drydydd. Yna daeth Dafydd Euros a Harvey Southam yn gydradd ail yn y gystadleuaeth rhyddiaith Bl.10-13 a Louise Phillips yn drydydd. Hyfryd oedd gweld cyn-ddisgyblion yn arweinyddion y dydd- Nel Richards, Sara Dafydd a Steffan Leonard a dau yn beirniadu- Dyfan Lewis ac Esyllt Lewis. Diolch yn fawr i Bwyllgor Gwaith Cwm Tawe am drefnu eisteddfod wych!



DIWRNOD Y LLYFR YN YSGOL BRYN TAWE- MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr eleni, aeth criw o fl.9 Bryn Tawe i ddarllen gyda rhai o ysgolion cynradd ein clwstwr. Cynhaliwyd gwasanaethau 'Diwrnod y Llyfr' yn ystod yr wythnos ac yn y gwasanaeth dangoswyd fideo o staff yr ysgol yn sôn am eu hoff lyfrau. Trefnwyd bore coffi amser egwyl pan groesawyd Siop Tŷ Tawe i werthu llyfrau Cymraeg, a chynhaliwyd gweithgareddau hwyliog eraill megis cwis llyfrau i fl.7, cystadleuaeth dyfalu pwy oedd y gwesteion o fyd llyfrau oedd yn dod am swper, a phos ym mhob gwrs i geisio dyfalu i ba aelod o staff oedd llun o bentwr o lyfrau'n perthyn. Gobeithio i bawb gael eu hatgoffa o'r mwynhad sydd i'w gael o ddarllen llyfrau.



GWOBR ARIAN DUG CAEREDIN- CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWCHED

Llongyfarchiadau mawr i Sally Corbett o flwyddyn 12 ar dderbyn ei Gwobr Dug Caeredin arian. Cafodd ei chyflwyno gyda'r wobwr mewn seremoni ar ddechrau'r mis. Mae Sally wrthi yn cwblhau'r gwaith ar gyfer y Wobr Aur ac yn gobeithio gorffen y cyfan eleni. Tipyn o gamp Sally, gwych!




YSGOLORIAETHAU PRIFYSGOL ABERYSTWYTH -CATRIN LYALL, IS BENNAETH Y CHWCHED

Daeth newyddion gwych ar ddechrau mis Mawrth bod dwy o flwyddyn 13 wedi ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Aberystwyth. Mae Kitty Walton yn mynd i astudio Hanes ac Elen Williams yn mynd i astudio'r Gymraeg.

Llongyfarchiadau mawr ferched!



GWOBR GOFFA LEAH OWEN -MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG



Llongyfarchiadau i Maiwenn, Rhys a Hari o Ysgol Bryn Tawe am ennill Cystadleuaeth Gwobr Goffa Leah Owen yn y categori B1.12-13 eleni. Dyma gystadleuaeth a drefnwyd gan fudiad 'Dyfodol i'r iaith' a'r dasg osodwyd oedd recordio fideo yn trafod y cyfleoedd a'r rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg. Diolch yn fawr i deulu Leah Owen am sefydlu'r gystadleuaeth ac i Heini Gruffudd am ddod i'r ysgol i wobrwyo'r disgyblion ar ran y mudiad. Gwelwyd eitem am y gystadleuaeth ar raglen 'Heno'.



Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mawrth. Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plis danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Ebrill erbyn Mawrth 30ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG

Dysgu
Learn



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

THE BUNKHOUSE, SA1 3DJ
05.06.26 £15 ADV

THE JOY FORMIDABLE

BREICHIAU HIR · PAT MORGAN
CRINC



THE BUNKHOUSE
MUSIC VENUE

menter
iaith
abertawe



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

NOSON

Ymuna â ni
Join Us

GWIS



Ymuna gyda ni am noson gwis. Bach o sbort a chyfle
i brofi eich gwybodaeth! Croeso i bawb!
Join us for our monthly quiz night! Test your
knowledge, have some fun and practise your Welsh.

TŶ TAW, STRYD CHRISTINA, SA1 4EW



www.menterabertawe.org